

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Cymorth ariannol ychwanegol tuag at gostau angladd a chostau cysylltiedig eraill adeg marwolaeth plant dan 18 oed

ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

1. Disgrifiwch ac eglurwch pa effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar blant a phobl ifanc.

Bydd darparu cymorth ariannol ychwanegol i deuluoedd sy'n galaru ar ôl colli plentyn yn cael effaith anuniongyrchol ac uniongyrchol ar blant. Teimlir yr effeithiau uniongyrchol yn bennaf naill ai pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad hefyd yn berson ifanc, neu bydd brodyr neu chwiorydd sy'n galaru yn teimlo'r effeithiau pan fydd eu teuluoedd yn derbyn cymorth ariannol neu emosiynol ychwanegol drwy'r cynllun.

Dylid ystyried y cynnig yn rhan ganolog o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a theuluoedd, ynghyd â'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud yng Nghymru i wella canlyniadau iechyd ac anghydraddoldeb i blant a theuluoedd.

Cadarnhaol:

- Gweithredu mewn modd teg a chyson ar draws Cymru er mwyn sicrhau bod pob teulu'n cael yr un gefnogaeth fel na fydd un teulu dan anfantais oherwydd ble maent yn byw neu oherwydd eu hamgylchiadau ariannol;
- Lleihau rhywfaint o'r baich ariannol ar deuluoedd sy'n galaru ar ôl colli plentyn, gan gynnwys y teuluoedd mwyaf agored i niwed lle y gallai caledi ariannol ychwanegol gael effaith ar y teulu yn y tymor hwy;
- Cefnogi iechyd a lles y rhiant/gwarcheidwad cyfreithiol a'r teulu ehangach yn well drwy leihau pwysau a biwrocratiaeth ddiangen pan fônt ar eu mwyaf bregus.

Negyddol:

- Nid ydym yn credu y bydd yn cael unrhyw effaith negyddol uniongyrchol ar blant.

Nid oes ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda phlant, rhieni, gwarcheidwaid a theuluoedd yn uniongyrchol oherwydd natur sensitif y maes polisi. Fodd bynnag, ymgysylltwyd â Gweithgor Cymorth Profedigaeth Llywodraeth Cymru fel rhan o'r adolygiad oherwydd y gwaith mae'n ei wneud i gefnogi teuluoedd sy'n galaru ar ôl colli plentyn yn uniongyrchol,

2. Eglurwch sut y mae'n debygol y bydd y cynnig yn effeithio ar hawliau plant.

Mae sylw dyledus wedi'i roi i hawliau plant a'r effaith ar erthyglau perthnasol:

Erthygl 2 (dim gwahaniaethu) – Mae'r confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, gallu neu unrhyw statws arall, beth bynnag mae'n ei gredu neu'n ei ddweud, beth bynnag fo cefndir ei deulu.

Bydd y polisi yn berthnasol i bob teulu sy'n colli plant dan 18 oed yng Nghymru heb wahaniaethu.

Erthygl 3 (er budd pennaf y plentyn) - Rhaid mai budd y plentyn yw'r prif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a chamau gweithredu sy'n effeithio ar blant.

Erthygl 26 (diogelwch cymdeithasol) - Mae gan bob plentyn yr hawl i elwa ar ddiogelwch cymdeithasol. Rhaid i lywodraethau ddarparu diogelwch cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ariannol a buddion eraill, i deuluoedd sydd angen cymorth.

Bydd y polisi yn darparu cymorth ariannol mewn amgylchiadau a allai fel arall achosi caledi ariannol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi teuluoedd i barhau i fod yn rhieni cyn hired â phosibl wrth i drefnu angladd addas i'w plentyn fod yn un o'r pethau olaf a wnânt fel rhieni. Bydd hefyd yn helpu i leihau'r baich ariannol ar deuluoedd, gan gynnwys y teuluoedd mwyaf agored i niwed lle y gallai caledi ariannol gael effaith ar y teulu ehangach yn y tymor hwy – gan gynnwys unrhyw blant eraill sydd ar ôl.